

Teithiau Byr



PELLTER/HYD: 3.4 milltir (5.5 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Maenorbŷr 349/359, Gorsaf rheilffordd 1 milltir i'r gogledd (SS069994)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymyl clogwyn, graddiannau, tueddol o fod yn fwdlyd tua'r tir pan fydd y tywydd yn wlyb

CHWILIWCH AM: Castell canoloesol • colomendy • traeth

MWY O WYBODAETH: Agen ddofn wedi'i chuddio ar bentir Priest's Nose - Cadwch ar y Llwybrau Cyhoeddus

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y dlogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gathiau

ALLWEDD

-  Llwybr Cylch
 Llwybr Arfordir Sir Benfro
 Llwybr Cenedlaethol
 Llwybrau Cyhoeddus
 Maes Parcio
 Toiledau Cyhoeddus
 Safle Bws

Maenorbŷr

Teithiau Byr

Hyd: 2 awr

Pellter: 3.4 milltir (5.5 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Maenorbŷr 349/359,
Gorsaf rheilffordd 1 milltir i'r gogledd
(SS069994).

Cyfeirnod map: SS063976

**Taith sydd â golygfeydd
gwyh o'r cwm, morlin
trawiadol a siamr gladdu
fegalithig...**

Chwiliwch am: Castell canoloesol,
colomendy, traeth.

Saif Maenorbŷr mewn cwm cul wedi'i gerfio gan ddwy nant ac fe'i disgrifiwyd gan Gerallt Gymro fel y "man mwyaf dymunol yng Nghymru," er, heb os, mae'n rhaid ei fod yn unlygeidiog am iddo gael ei eni yn y castell yma. Mae'r castell o'r 12fed ganrif, sy'n eiddo preifat y mae pobl yn byw ynddo, ond sy'n agored i ymwelwyr o Ebill i Hydref, wedi ei gadw'n dda gyda phorth a thyrrau crwn da, Neuadd Fawr a chapel cromennog. I'r gorllewin, mae'r colomendy.

Caiff y traeth islaw'r castell ddefnydd da yn yr Haf, gan dwristiaid a syrffwyr. Pan fydd y llanw'n isel, efallai y gwelwch chi goedwig wedi'i bodd, olion coetir a foddwyd pan gododd lefelau'r môr i'r lefelau presennol, rhywbryd rhwng 3,000 a 10,000 o flynyddoedd yn ôl, ac a ddiogelwyd gan y dŵr heli a'r tywod o'u hamgylch.

Ar y clogwyni uwchlaw'r traeth, saif Coetan y Brenin, sef siamr gladdu fegalithig gyda phenllech enfawr, sy'n sefyll ar ddwy garreg gynnal yn unig.

Colomendy Maenorbŷr, wedi'i adeiladu yn y drydedd ganrif ar ddeg i ddarparu cig ac wyau ffres i drigolion y castell, roedd yr adeilad hwn yn gartref i tua 250 o adar. Roedd colomennod yn dodwy dau ŵy tua chwe gwaith y flwyddyn a chymerwyd y 'cywion' ifanc pan roedden nhw'n dew a suddog yn 4-6 wythnos oed.

Cafodd y colomendy ei adnewyddu'n rhannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyflawnwyd yr adnewyddiad presennol gan Grŵp Tirlun Canoloesol Maenorbŷr gyda chymorth hael oddi wrth Gyngor Cymuned Maenorbŷr, sawl rhoddwr preifat a'r CADW, PAVS a Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae Libby Taylor, Uwch Barcmon y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Dyma daith sy'n wahanol i'r teithiau eraill ar hyd arfordir y de, gyda chlogwyni dramatig o dywodfaen coch (yn cyferbynnu gyda charreg galch Stackpole a Bosherton) a phentref hanesyddol, prydferth Maenorbŷr."

Cymeriad: Arfordir garw, ymyl clogwyn, graddiannau, tueddol o fod yn fwdlyd tua'r tir pan fydd y tywydd yn wlyb.

Mwy o wybodaeth: Agen ddofn wedi'i chuddio ar bentir Priest's Nose - Cadwch ar y Llwybrau Cyhoeddus.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

